

# 5. Daeth Cariad i'r Byd

## CYMERIADAU

- MAIR – Dillad glas, glân
- JOSEFF – Dillad amryliw tywyll a band gwallt
- ASYN – Mwgwd a chlustiau
- 2 FUWCH – Mwgwd, clustiau, cyrn
- 3 LLETYWR – Dillad amryliw tywyll
- 3 BUGAIL – Dillad carpiog/band gwallt
- 3 BRENIN – Dillad lliwgar, llachar
- ANGYLION – Dillad gwyn/adenydd/eurgylchoedd

## OFFER

- Plu eira mawr yn hongian o'r nenfwd
- Bagiau o blu eira [*papur sidan*]
- Preseb yn llawn o wair
- Gwair ar gyfer y llawr
- Dol fach a siôl
- Seren arian fawr
- 3 ffon fugail/pibau bugail neu recorder
- Blwch bychan
- Dau gawg addurnedig
- Un drwm
- Utgyrn angylion [*siapiau cardfwrdd wedi'u paentio'n lliw arian*]

STORIŴR: Croeso i chi i stori'r geni. Enw'r ddrama ydy 'Daeth Cariad i'r Byd'. Ymunwch â ni i ganu'r carolau. Yn awr, fe ganwn:

CAROL: 'Oer oedd gwynt y gaeaf', *Clychau'r Nadolig*.

[*Yn ystod y garol, mae MAIR a JOSEFF a'r ASYN yn cerdded ar hyd y ffordd. Teflir eira ar eu pennau gan dri phlentyn a fydd, yn ddiweddarach, yn cymryd rhan y LLETYWYR*]

STORIŴR: Y noson honno, flynyddoedd maith yn ôl, roedd eira'n syrthio ar y ffordd droellog a arweiniai i fyny'r bryn tuag at Fethlehem, a'r eira'n garped gwyn ar y bryniau cyfagos.

Llafuriai'r asyn druan i fyny'r llwybr troellog a arweiniai at oleuadau'r dref. Ar gefn yr asyn hwnnw eisteddai Mair, yn flinedig ac oer. Bu hi a Joseff yn teithio ers oriau bellach, ac yn awr, o'r diwedd, dyma gyrraedd strydoedd Bethlehem. Rhaid, felly, fyddai dod o hyd i lety gan ei bod hi mor hwyr ac oer.

[*Yn ystod y geiriau nesaf, mae MAIR a JOSEFF yn cymryd arnynt eu bod yn cnocio drysau. Maen nhw'n cnocio deirgwaith ond cânt eu hanfon i ffordd deirgwaith – bob tro y clywir y geiriau 'Nid oes lle yma'. Yna, mae'r ddau'n sefyll gan edrych yn wangalon iawn*]

STORÏWR: Gofynnodd y ddau am le ymhob llety, pob un yn edrych yn lleoedd golau a chynnes, ond gwrthodwyd eu cais bob tro.

Nid oes lle yma!

Nid oes lle yma!

Nid oes lle yma!

Doedd dim lle na'r un gwely sbâr ym Methlehem y noson honno.

O'r diwedd daethon nhw at stabl, y lle a ddewiswyd i fod yn fan geni i fab Duw; galwodd Mair y baban yn Iesu a rhoddodd ef i gysgu'n dawel yn y preseb, gan nad oedd lle addas arall i roi'r un bach.

CAROL: 'Sisialai'r Awel Fwyn', *Clychau'r Nadolig*.

*[Tra bo'r garol yn cael ei chanu, bydd offer golygfa'r stabl yn cael eu gosod ar y llwyfan – y preseb a'r baban yn y canol, MAIR a JOSEFF bob ochr iddo, yr ASYN a'r DDWY FUWCH y tu ôl i'r preseb. Bydd y seren yn crogi o'r nenfwd]*

STORÏWR: Safai'r anifeiliaid yn dawel, yn fodlon braf, tra cysgai'r baban ar ei wely gwair. Roedd rhannu yn beth cyfarwydd ym mywyd yr anifeiliaid hyn ac roedd rhannu stabl efo'r baban bach yma'n bleser amhrisiadwy. Felly y cysgodd Iesu ei noson gyntaf ar ein daear ni, yma ym Methlehem. I fyny yn y ffurfafen uwchben y stabl disgleiriai'r seren wych.

CAROL: 'O! dawel ddinas Bethlehem', *Clychau'r Nadolig*.

*[Yn ystod y garol, mae'r anifeiliaid yn dod ar y llwyfan. Maen nhw'n edrych yn oer iawn]*

STORÏWR: Fel y gwelwch, ar y bryniau y tu allan i'r dref, roedd bugeiliaid yn gofalu am eu defaid. Ar noson oer fel hon, nid oedd lloches glyd i'r bugeiliaid, dim to uwch eu pennau, na thân croesawus ar yr aelwyd. Roedd yn rhaid iddyn nhw dynnu eu cotiau carpiog yn dynn amdanyn nhw er mwyn cadw'r oerni rhewllyd draw. Tybed a oedd rhywun yn poeni amdanyn nhw?

*[Daw'r ANGYLION ar y llwyfan ac maen nhw'n sefyll ar gadeiriau gan ddal yr utgyrn cardfwrdd wrth eu cegau. Mae'r BUGEILIAID yn crynu mewn ofn]*

STORÏWR: Oedd, roedd Duw yn cofio amdanyn nhw ac anfonodd lu o angylion atyn nhw, y cyhoeddwyd disglair ag utgyrn arian yn eu dwylo. Gyda'u lleisiau, fel sain clychau, dyma alw ar y bugeiliaid a dywedwyd wrthyn nhw fod mab Duw wedi'i eni ym Methlehem, sef Gwarddwr y Byd a'u brenin nefol hwythau.

Llanwyd y ffurfafen â golau bendigedig; atseiniai'r gân o fryn i fryn:

'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd.'

CAROL: ‘Clywch, y ddwyfol sanctaidd gân’, *Clychau’r Nadolig*.

[*Mae’r BUGEILIAID yn crynu bob yn ail a chodi eu pennau mewn syndod*]

STORIŴR: Rhyfeddodd ac ofnodd y bugeiliaid nes diflannodd y golau llachar a’r lleisiau nefol. Gadawyd nhw’n unig yn nistawrwydd llethol y brynau, dim ond eu defaid a’r eira gwyn o’u hamgylch.

[*Saif y BUGEILIAID ar eu traed. Mae pawb yn llonydd iawn*]

STORIŴR: Onid oedden nhw wedi clywed newyddion bendigedig? Doedd dim amser i’w wastraffu, roedd yn rhaid iddyn nhw adael y praidd cysglyd a gwneud eu ffordd dros y llwybrau a’r creigiau a’r caeau rhewlyd nes cyrraedd man tawel mewn stryd yn y dref. Fe’u harweiniwyd yno gan y seren lachar at y baban bychan a oedd yn cysgu yn y preseb clyd.

CAROL: ‘Brysiwch fugeiliaid’, *Clychau’r Nadolig*.

[*Yn ystod y garol, penlinia’r BUGEILIAID o flaen y preseb gan gyflwyno’r oen. Mae JOSEFF yn gafael yn yr oen er mwyn i’r BUGEILIAID gael penlinio*]

STORIŴR: Penliniodd y bugeiliaid o flaen y preseb lle gorweddai eu gwardwr, gan roi anrheg yr un iddo – sef oen, anrheg i Oen Duw; a phibau, pibau bugail ar gyfer y ddawns, gan fod y baban yma wedi dod â hapusrwydd mawr i’r byd.

[*Ysbaid. Mae un o’r BUGEILIAID yn chwarae tŷn fer addas ar y pibau a’u rhoi i JOSEFF*]

Yna, wrth i’r bugeiliaid godi i adael y llety llwm, dyma nhw’n dechrau canu a dawnsio – roedden nhw wedi gwirioni. Wedi’r cwbl, nhw’r bugeiliaid tlawd oedd y rhai cyntaf i glywed y newyddion da. Roedden nhw wedi gweld mab Duw, yma ar y ddaear, ym Methlehem.

CAROL: ‘Bethlehem (3)’, *Clychau’r Nadolig*.

[*Mae’r BUGEILIAID yn gadael y llwyfan gan wneud lle i’r TRI BRENIN*]

STORIŴR: Yn y cyfamser roedd tri gŵr doeth yn teithio ar draws yr anialwch – gan deithio ddydd a nos. Tri gŵr doeth, tri gŵr cyfoethog iawn. Tri gŵr â’u bryd ar astudio’r sêr, yr arwyddion hynny yn y nef a oedd yn dangos negeseuon Duw.

Disgleiriai un seren lachar gan ddweud fod brenin wedi’i eni, y mwyaf a welodd y byd erioed, sef mab Duw ei hun. A phan sylweddolodd y gwŷr doeth beth oedd arwyddocâd y seren arbennig hon, aethon nhw i chwilio am yr un bychan a fyddai’n frenin nef a daear.

Ni wastraffwyd dim amser; roedd yn rhaid dod o hyd i fab Duw. Dros fryniau, creigiau a thywod, teithiodd y tri heb orffwys. O’r diwedd, roedden nhw’n aros wrth ddrws stabl dlodaidd iawn yr olwg. A’r fath syndod! Daethpwyd o hyd i’r brenin newydd ei eni yn y fath le, ymysg yr anifeiliaid, y gwair a’r gwe pry cop.

[Ysbaid. Drwm yn canu'n araf wrth i'r TRI BRENIN benlinio – gan ddal eu hanrhegion fel y gall pawb eu gweld. Maen nhw'n aros fel hyn]

STORIŴWR: Roedden nhw'n gwybod pwy oedd yn y preseb pan welson nhw ef. Talwyd gwrogaeth iddo gan wŷr doeth yn eu dillad drud a hardd. Talwyd gwrogaeth i'r brenin a gysgai yn nhawelwch ei lety llwm. Roedd y daith anodd wedi bod yn werth yr ymdrech!

A be am yr anrhegion gwych a roddwyd i'r baban?

Rhodddwyd aur iddo, am ei fod yn frenin. Rhodddwyd thus iddo, am ei fod yn Arglwydd. Rhodddwyd myrr iddo, fel arwydd o'i farwolaeth, ei rodd o ras.

CAROL: 'Tri ŷm ni', *Clychau'r Nadolig*.

[Yn ystod y garol, cyflwyno'r TRI BRENIN eu rhoddion, a'u gadael yng ngŵydd pawb o flaen y preseb. Maen nhw'n mynd oddi yno'n araf]

STORIŴWR: Yna, aeth y gwŷr doeth ymlaen ar eu taith yn ôl dros yr anialwch i'w gwlad eu hunain. O! Y fath hapusrwydd oedd yn eu calonnau y noson honno. Y noson pan ddaeth Cariad, mab Duw ei hun i'n daear.

CAROL: 'Caned y clychau', *Clychau'r Nadolig*.

**DIWEDD**